O'NEIL, BRYAN HUGH ST. JOHN (1905 - 1954), archaeolegydd

Enw: Bryan Hugh St. John O'neil
Dyddiad geni: 1905
Dyddiad marw: 1954
Priod: Helen Evangeline O'Neill (née Donovan)
Rhiant: Mabel Meliora O'Neill (née Rowe)
Rhiant: Charles Valentine O'Neill
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: archaeolegydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Donald Moore

Ganwyd 7 Awst 1905 yn Llundain, mab Charles Valentine O'Neil a Mabel Meliora (ganwyd Rowe). Addysgwyd ef yn Ysgol Merchant Taylors a Choleg S. Ioan, Rhydychen (M.A.); etholwyd ef yn Gymrawd o Gymdeithas Hynafiaethwyr Llundain (F.S.A.) yn 1935. Priodod yn 1939 Helen Evangeline Donovan o Bourton-on-the water, sir Gaerloyw, hithau yn archaeolegydd.

Fe'i penodwyd i'r Swyddfa Gweithfeydd yn 1930 yn Arolygydd Cynorthwyol Henebion ar gyfer Cymru, i olynu C. A. Ralegh Radford. Dyrchafwyd ef yn 1945 i fod yn Brif Arolygydd Henebion ar gyfer Lloegr a Chymru. Yr oedd yn gyfrifol am gynghori ynglyn â chadw a chyflwyno henebion a oedd o dan ofal y Wladwriaeth, ac am gofrestru'r rhai a oedd yn werth eu cadw, pwy bynnag a oedd eu piau. Yr oedd ei swyddfa yn Llundain, ac er treulio 15 mlynedd ar ei ddyletswyddau Cymreig, nid oedd ganddo anheddle yng Nghymru. Ymunodd â Chymdeithas Hynafiaethau Cymru yn 1931, a gwasanaethodd yn ddiweddarach ar ei Phwyllgor Cyffredinol. O'i 200 o gyhoeddiadau a restrwyd, yr oedd traean yn ymwneud ag archaeoleg Cymru; ymddangosent fel rheol yn *Archaeologia Cambrensis*, *Montgomeryshire Collections* neu fel cyhoeddiadau H.M.S.O. Fel arolygydd, yr oedd yn rhaid iddo ysgrifennu neu gomisiynu llawlyfrau awdurdodol ar henebion o bob cyfnod. Arbenigai mewn cestyll canoloesol. Yr oedd yn ddyfal ei gloddio, ac fe'i cofir yng Nghymru am ei waith ar fryngaerau cynhanesyddol Breiddin a Ffridd Faldwyn, Trefaldwyn, a Titterstone Clee, Sir Amwythig.

Ymddiddorai mewn arian bath trwy gydol ei oes, ac etholwyd ef yn Gymrawd o'r Gymdeithas Numismatig Frenhinol. Teithiai'n eang, a chynhyrchodd adroddiad ar gais swyddogol ar gestyll arfordir y Traeth Aur (heddiw Ghana). Yr oedd yn weithiwr diwyd a chydwybodol, yn eglwyswr selog a dilynwr rygbi brwdfrydig. Bu farw 24 Hydref 1954 yng Nghaeredin.

Awdur

Donald Moore

Ffynonellau

E. M. Jope, 'Bryan H. St. John O'Neil: a memoir', 'The published works of B.H. St. J. O'Neil', a phortread yn E. M. Jope (ed.),

Studies in building history Essays in recognition of the work of B. H. St. J. O'Neil (Llundain 1961)

The Antiquaries Journal, 35 (1955), rhif 3, 4, tt. 285-6

Index to Archæologia Cambrensis, 1901-1960 (1976), 211

Who was who?

gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16750716

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu